# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn Pleidleisiau a Thrafodion (227)

## Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Hydref 2006
## Amser: 2.00pm – 5.31pm

Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

### Eitem 1 - Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio

**NDM3248 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu:

1. Bod Pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2006-6, yn cael ei sefydlu yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a nodir yng nghyswllt pob mater yn yr atodlen honno a bod swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y rheiny'n cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones (Cadeirydd)

Lorraine Barrett

Glyn Davies

Elin Jones

3. Bod y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 30 Tachwedd 2006, pa un bynnag a fydd gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna, yn yr achos hwnnw, dirprwyir y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, yng nghyswllt mater o'r fath, i'r Prif Weinidog.

Atodlen

CAIS CYNLLUNIO A ALWYD I MEWN DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN MORRIS CONSTRUCTION AR GYFER DATBLYGIAD PRESWYL CYMYSG ARFAETHEDIG AR DIR GER PENTREF LEESWOOD, SIR Y FFLINT.

CAIS CYNLLUNIO A ALWYD I MEWN DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN ABERDARE DEVELOPMENTS AR GYFER AILDDATBLYGIAD ARFAETHEDIG I DDARPARU CYFLEUSTERAU PRESWYL, MASNACHOL A HAMDDEN MEWN PUM PARTH AR DIR GYFERBYN Â CHANOL Y DREF, ROBERTSTOWN, ABERDÂR.

CAIS CYNLLUNIO A ALWYD I MEWN DAN ADRAN 77 O DDEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 GAN DILLWYN PRODUCTIONS LTD AR GYFER CWRS GOLFF, CYFLEUSTERAU HAMDDEN A DATBLYGIAD PRESWYL ARFAETHEDIG YN LLANGYFELACH, ABERTAWE.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| **O Blaid** | **Ymatal** | **Yn Erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 0 | 26 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

..............................

## 2.01pm
## Eitem 2 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

..............................

### 2.54pm
### Eitem 3 - Y Datganiad Busnes

Derbyniwyd y Datganiad Busnes.

..............................

**3.03pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau: G24i – Prosiect mewnfuddsoddi gwerth uchel newydd ar gyfer Cymru**

..............................

**3.28pm**

**Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni'n syth.**

## Eitem 4 - Cynnig i'w drafod o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM3239 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 10 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod y Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006;
(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006; a
(iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 10 Hydref 2006.

2. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 10 Hydref 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006; a

(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

3. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 10 Hydref 2006 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

(i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006;

(ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006; a

(iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 10 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| **O Blaid** | **Ymatal** | **Yn Erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 0 | 35 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

..............................

**3.28pm**

## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Arolygu) (Cymru) 2006

**NDM3240 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Arolygu) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau:

| **O Blaid** | **Ymatal** | **Yn Erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 38 | 3 | 0 | 41 |

**Derbyniwyd egwyddor y Rheoliadau.**

**NDM3241 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Arolygu) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol (Arolygu) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 3 | 0 | 42 |

**Derbyniwyd y Rheoliadau.**

..............................

**3.36pm**

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) 2006

**NDM3242 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd egwyddor y Rheoliadau.**

**NDM3243 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 10 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Rhif 2) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y Rheoliadau.**

**..............................**

**3.43pm**

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2006

**NDM3244 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn mynegi pryder ynglyn â'r goblygiadau ariannol i Awdurdodau Lleol."*

Cynhaliwyd pleidlais ar y Gwelliant i egwyddor y Rheoliadau:

| **O Blaid** | **Ymatal** | **Yn Erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 14 | 7 | 25 | 46 |

Gwrthodwyd y Gwelliant i egwyddor y Rheoliadau.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau:

| **O Blaid** | **Ymatal** | **Yn Erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 0 | 43 |

**Derbyniwyd egwyddor y Rheoliadau.**

**NDM3245 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y Rheoliadau.**

..............................

**3.48pm**

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2006

**NDM3246 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 0 | 45 |

**Derbyniwyd egwyddor y Rheoliadau.**

**NDM3247 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Hydref 2006 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion

Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai (Ffurflen a Manylion Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2006.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

**Derbyniwyd y Rheoliadau.**

..............................

**3.50pm**

## Eitem 9 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**NDM3249 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu a chyflwyno strategaeth "Ansawdd Bwyd" eang ei seiliau i ymgynghori yn ei chylch erbyn diwedd y flwyddyn er mwyn gwella ansawdd y bwyd a fwyteir yng Nghymru. Dylai strategaeth o’r fath gynnwys:

a) Gwneud Astudiaethau Bwyd yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan ddysgu plant am faeth yn ogystal â sut i goginio bwyd iach;
b) Gwella safon maeth prydau ysgol a phrydau a ddarperir mewn ysbytai;
c) Cynlluniau bwyta’n iach wedi’u hanelu at ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol;
d) Lleihau lefelau plaladdwyr a thocsinau mewn bwyd; ac
e) Rhoi mwy o anogaeth i gynhyrchu a bwyta bwyd organig.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mharagraff 1, dileu: “erbyn diwedd y flwyddyn” ac yn ei le rhoi “erbyn diwedd yr ail Gynulliad”.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

Derbyniwyd Gwelliant 1.

**Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu fel is bwynt newydd:

*"Cynyddu caffael lleol a gweithio i leihau milltiroedd bwyd."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

Derbyniwyd Gwelliant 2.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau gostyngiad mewn milltiroedd bwyd drwy ddatblygu rhwydweithiau cyflenwyr lleol*."

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 23 | 0 | 27 | 50 |

Gwrthodwyd Gwelliant 3.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"*Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal yn ddi-oed arolwg o bob ysgol i asesu goblygiadau darparu digon o amser a lle i bob disgybl eistedd a bwyta pryd o fwyd.*"

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 27 | 48 |

Gwrthodwyd Gwelliant 4.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**
**NDM3249 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddatblygu a chyflwyno strategaeth "Ansawdd Bwyd" eang ei seiliau i ymgynghori yn ei chylch erbyn diwedd yr ail Gynulliad er mwyn gwella ansawdd y bwyd a fwyteir yng Nghymru. Dylai strategaeth o'r fath gynnwys:

a) Gwneud Astudiaethau Bwyd yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, gan ddysgu plant am faeth yn ogystal â sut i goginio bwyd iach;
b) Gwella safon maeth prydau ysgol a phrydau a ddarperir mewn ysbytai;
c) Cynlluniau bwyta'n iach wedi'u hanelu at ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol;
d) Lleihau lefelau plaladdwyr a thocsinau mewn bwyd; ac
e) Rhoi mwy o anogaeth i gynhyrchu a bwyta bwyd organig.

f) Cynyddu caffael lleol a gweithio i leihau milltiroedd bwyd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 50 | 0 | 0 | 50 |

Derbyniwyd y cynnig, wedi’i ddiwygio.

..............................

## 4.40pm
## Eitem 10 - Dadl am Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed

### NDM3250 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i "Ein Cadw’n Ddiogel", adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy’n Agored i Niwed.

***Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:***
**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi adroddiad blynyddol am effeithiolrwydd pob awdurdod lleol o ran cyflawni’u cyfrifoldebau fel rhiant corfforaethol, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu trawsbleidiol arfaethedig ar wasanaethau plant."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 27 | 48 |

Gwrthodwyd Gwelliant 1.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i adolygu'r gwaith o weithredu'r argymhellion a geir yn adroddiadau Waterhouse, Laming, Carlile, Clywch a Bichard, ac i gyflwyno canfyddiadau'r adolygiad hwn, yn ogystal ag amserlen ar gyfer gweithredu unrhyw argymhellion nad ydynt wedi'u cyflawni, i'r pwyllgor craffu trawsbleidiol arfaethedig ar wasanaethau plant.*

*Gellir dod o hyd i'r adroddiadau uchod drwy ddilyn y dolenni a ganlyn:*

*http://www.childcom.org.uk/clywch/index.html*

*http://www.bichardinquiry.org.uk/report/*

*http://www.nationalarchives.gov.uk/ERO/records/vc/1/1/finreport/finreport.htm*

*http://www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/PublicationsPAmpGBrowsable Document/fs/en?CONTENT_ID=4097884&chk=i/fflL*

*http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/careandprotection/childprotection/carlile1/?lang=en*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

Derbyniwyd Gwelliant 2.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi adroddiad blynyddol am gynnydd addysgol plant sy'n derbyn gofal, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu trawsbleidiol arfaethedig ar wasanaethau plant."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 27 | 48 |

Gwrthodwyd Gwelliant 3.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i osod cyfraddau lwfans maethu sylfaenol sy'n adlewyrchu gwir gostau gofalu am blentyn."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 27 | 48 |

Gwrthodwyd Gwelliant 4.

**Gwelliant 5 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw am gamau gweithredu cadarn i newid system ofal lle y mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc ar hyn o bryd yn debygol o fod heb gymwysterau, yn ddi-waith, yn ddigartref neu mewn carchar."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

Derbyniwyd Gwelliant 5.

**Gwelliant 6 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu cost Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru yn rheolaidd er mwyn sicrhau na fydd awdurdodau lleol na chyrff cyfatebol yn wynebu unrhyw feichiau nas cyllidir, ac yn credu y byddai'n annerbyniol petai unrhyw beth difrifol yn digwydd dim ond oherwydd nad oedd y Byrddau wedi cael digon o gyllid."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 | 47 |

Derbyniwyd Gwelliant 6.

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn credu y gallai Comisiynydd Plant Cymru ddiogelu anghenion plant Cymru yn fwy effeithiol petai'n gallu cyflwyno sylwadau am faterion sydd wedi'u datganoli a materion nad ydynt wedi'u datganoli; a hynny gerbron Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth San Steffan."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 26 | 48 |

Gwrthodwyd Gwelliant 7.

**Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchu'n flynyddol y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r argymhellion a wnaed yn yr amrywiol adroddiadau amddiffyn plant diweddar a gafwyd yng Nghymru."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 27 | 48 |

Gwrthodwyd Gwelliant 8.

**Gwelliant 9 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu system i sicrhau bod pob awdurdod cyhoeddus*

*a’r sector gwirfoddol yn cynnal ymchwiliad drwy’r Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer pob aelod o staff sy’n gweithio gyda phlant."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 27 | 48 |

Gwrthodwyd Gwelliant 9.

**Gwelliant 10 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*"Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a dull gweithredu integredig o ran plant sy’n agored i niwed ac i sicrhau gwasanaethau cyflym ac effeithiol."*

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 1 | 48 |

Derbyniwyd Gwelliant 10.

Y cynnig wedi’i ddiwygio:

NDM3250 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i "Ein Cadw’n Ddiogel", adroddiad yr Adolygiad o Ddiogelu Plant sy’n Agored i Niwed.

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i adolygu’r gwaith o weithredu’r argymhellion a geir yn adroddiadau Waterhouse, Laming, Carlile, Clywch a Bichard, ac i gyflwyno canfyddiadau’r adolygiad hwn, yn ogystal ag amserlen ar gyfer gweithredu unrhyw argymhellion nad ydynt wedi'u cyflawni, i'r pwyllgor craffu trawsbleidiol arfaethedig ar wasanaethau plant.

Yn galw am gamau gweithredu cadarn i newid system ofal lle y mae’r rhan fwyaf o bobl ifanc ar hyn o bryd yn debygol o fod heb gymwysterau, yn ddi-waith, yn ddigartref neu mewn carchar.

Yn mynnu bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu cost Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru yn rheolaidd er mwyn sicrhau na fydd awdurdodau lleol na chyrff cyfatebol yn wynebu

unrhyw feichiau nas cyllidir, ac yn credu y byddai’n annerbyniol petai unrhyw beth difrifol yn digwydd dim ond oherwydd nad oedd y Byrddau wedi cael digon o gyllid.

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a dull gweithredu integredig o ran plant sy’n agored i niwed ac i sicrhau gwasanaethau cyflym ac effeithiol.

Gellir dod o hyd i'r adroddiadau uchod drwy ddilyn y dolenni a ganlyn:

http://www.childcom.org.uk/clywch/index.html

http://www.bichardinquiry.org.uk/report/

http://www.nationalarchives.gov.uk/ERO/records/vc/1/1/finreport/finreport.htm

http://www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/PublicationsPAmpGBrowsable
Document/fs/en?CONTENT_ID=4097884&chk=i/fflL

http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/careandprotection/childprotection/carlile1/?lang=en

| **O blaid** | **Ymatal** | **Yn erbyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig, wedi’i ddiwygio.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.31pm**

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 18 Hydref 2006

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 17 Hydref penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6 nad oes angen cyfeirio'r ddeddfwriaeth ganlynol i'w hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

- Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2006
- Gorchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig (Diwygio) (Cymru) 2006
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Gwasanaethau Cysylltiedig (Cymru) 2006
- Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) (Diwygio) 2006
- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Diwygio) (Cymru) 2006
- Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2006